

DOLEN Y TAB 93

11–12 Chwefror 2022

Bore Sul 13 Chwefror am 11

Yng ngofal Geraint Rees a Wyn Rees gydag Eleri Huws yn cyfeilio.

Caiff yr oedfa ei ffrydio'n 'fyw' ar dudalen *Facebook* y capel a bydd modd gwyllo recordiad yn ddiweddarach naill ai ar *Facebook* neu ar *YouTube*.

Cofiwch gofrestru sedd(i) erbyn 6 nos Wener.

YR OEDFAON NESAF

Chwefror

- 20 Edwyn Evans a Sylvia Davies gyda Rhiannon Humphreys yn cyfeilio.
- 27 Geraint Wyn Davies a Nia Williams gyda Sian Elin wrth yr organ.

Mawrth

- 6 Iwan Rowlands a Ceri Anwen
- 13 Aled Edwards a Bethan Guilfoyle
- 20 Rowland a Mariann Wynne
- 27 Gethin Rhys a Huw Roberts

Hefyd ddydd Sul 13 Chwefror

12:00 Oedfa Radio Cymru

Gwasanaeth yng ngofal Siân Meinir, Penarth.

12:30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

19.30 S4C Dechrau Canu Dechrau Canmol – Mari

Jones a'i Beibl – Troedio llwybr Mari Jones yng nghwmni Mary Thomas a chael cipolwg ar un o eiconau crefydd y Cymry, yr union gopi o'r Beibl a gafodd Mari gan Thomas Charles.

E-fwletin Cristnogaeth21

Bob bore Sul www.cristnogaeth21.cymru

Brysiwch Wella

Estynnwn ein dymuniadau am wellhad buan i Eirian Rowlands, Pentre'r Eglwys, sydd wedi bod yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Llantrisant yn ystod yr wythnos hon.

Ffrydio Oedfaon

Diolch i Hefin Gruffydd ac Aled Illtud am eu gwaith campus gyda'u ffonau symudol personol, mae'r oedfaon Suliau'r mis diwethaf wedi eu ffrydio'n 'fyw' ar *Facebook*. Hefyd mae'n bosib gwyllo recordiad ohonynt yn ddiweddarach ar sianel *You Tube* a thudalen *Facebook* y Tabernacl. Deallwn bod nifer dda wedi eu gwyllo a derbyn bendith ohonynt.

Bu'n fwriad ers misoedd i ffrydio'r oedfaon fel rhan sefydlog o waith yr eglwys. Yng nghyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd nos Fawrth, derbyniwyd adroddiad gan y Gweithgor a sefydlwyd i ystyried pa gamau ddylai'r eglwys eu mabwysiadu er mwyn uwchraddio offer a gwasanaethau digidol y Tabernacl, gan gynnwys ffrydio oedfaon. Wedi i'r Gweithgor bwysu a mesur sawl opsiwn posib, roedd consensws yn eu plith mai'r dewis doethaf fyddai buddsoddi mewn system pwrpasol yn cynnwys tri camera, cymysgydd lluniau a glieniadur pwrpasol, ynghyd â system sain presennol y capel. Eglurwyd fod prisiau'r offer dan sylw wedi gostwng yn sylweddol dros amser a bellach mae'r costau'n ddigon rhesymol. Serch hynny, gan fod dwy ffynhonnell nawdd posib ar gael, cytunodd y Bwrdd i lunio ceisiadau. Yn y cyfamser, byddwn yn parhau'r gwasanaeth ffrydio drwy gyfrwng ffonau symudol.

Os bydd y ceisiadau am nawdd yn llwyddiannus, bydd raid sicrhau bod gennym dîm bach o wirfoddolwyr fyddai'n barod i dderbyn hyfforddiant ar weithio'r system ac ymuno mewn rota i gynnal y gwasanaethau o Sul i Sul.






PIGION O'R WASG

Be sy a wnelo hynny â FI?

*'Brwydrwch dros gyfiawnder, o blaid y rhai sy'n cael eu gorthrymu'.
(Eseia 1: 17)*

Un sy'n cyfrannu'n gyson i *Cennad*, wythnosolyn Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb y Bedyddwyr, yw Aled Davies, Chwilog. Yr wythnos hon mae'n ein hatgoffa y



clustnodir y Sul hwn yng nghalendr yr Eglwys ym Mhrydain ac Iwerddon fel Sul diogelu cyfiawnder hiliol. Mae'n egluro i'r Sul gael ei sefydlu'n ôl yn 1995 yn dilyn llofruddiaeth Stephen Lawrence yn ne Llundain ym mis Ebrill 1993, a methiant y gyfraith ar y pryd i sicrhau cyfiawnder am y drosedd. Cofiw'n mai un ymhlith llawer o

ymosodiadau anghueol tebyg ar bobl ifanc du ac Asiaidd yn y cyfnod lle na chafwyd neb yn euog oedd achos Lawrence. Gewch chi farnu a ddiflannodd hiliaeth sefydliadol yn llwyr ers y 1990au.

Thema oedfa Sul Cyfiawnder Hiliol eleni yw *'Be sy a wnelo hyn â FI?'*, gan fod ymchwil ddiweddar wedi dangos bod nifer o Gristnogion ac eglwysi'n honni nad oes angen iddynt i roi unrhyw ystyriaeth i'r mater hwn. Mewn rhagair i'r adnoddau a luniwyd i gyd-fynd â'r oedfa, mae Richard Reddie, Cyfarwyddwr Cyfiawnder a Chynhwysiant, Eglwys Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon, yn nodi: *'Mae yma alwad clir ar bob Cristion i ymddiddori yn y frwydr dros gyfiawnder hiliol, gan fod cyfiawnder hiliol yn fusnes i bawb ohonom.'*

Craidd yr oedfa yw dangos, os yw cyfiawnder hiliol yn fusnes i BAWB, na ddylid ei ystyried yn fater cymhleth a beichus a thrwy hynny ei anwybyddu, ond yn hytrach i'w weld fel cyfle i eglwysi ganolbwyntio ar dair egwyddor, sef Cofio, Myfyrio ac Ymateb:

- **COFIO** pwysigrwydd cyfiawnder hiliol;
- **MYFYRIO** ar amrywiaeth dynol a diolch i Dduw amdano;
- **YMATEB** drwy weithio i roi terfyn ar anghyfiawnder, hiliaeth ac anwybodaeth – a hynny trwy barodrwydd i weithredu, ac mewn ysbryd o weddi.

Gellir darllen yr erthygl gyfan yn rhifyn 50 o *Cennad*: <https://www.cennad.cymru>

FFYDD YN Y DYFODOL

Mae'r Ymddiriedolaeth Eglwys Genedlaethol a Fforwm Addoldai Cymru yn trefnu tair seminar 'Ffydd yn y Dyfodol':

Seminar 1: 15 Chwefror am 1.30yp.
Adeiladu cysylltiadau ac ymgysylltu â chymunedau.

Seminar 2: 8 Mawrth am 1.30yp
Ffydd arloesol o godi arian ac incwm.

Seminar 3: 29 Mawrth am 1.30yp
Ymateb i her newid hinsawdd.

Mae pob gweminar yn rhad ac am ddim. Cofrestrwch ar **EventBrite** er mwyn clywed gan arbenigwyr yn y sector am yr ymchwil a'r cyngor diweddaraf. Yn bwysicach, byddwn hefyd yn clywed gan wirfoddolwyr mewn prosiectau gwych ac enghreifftiau o arfer gorau mewn eglwys, capeli a mannau addoli eraill.

Y Ganolfan, Capel Tabernacl **10.00-11.30**

Dydd Llun Chwefror 14eg

Croeso i rieni, gwarchodwyr, Nain, Tad-cu a'i plant/wyrion/wyresau

Cyfle i bawb gymdeithasu, chwarae gyda theganau ynghyd a chael ychydig o fwyd sy'n addas i blant.

Coffi a Sgws

Canolfan y Tabernacl

Bob bore Mawrth 10.30-12.00

Efail Isaf

Croeso i bawb

Canolfan Garth Olwg Centre

Sgws y mis ~ Monthly talk

23.02.22 ~ 7.30-8.30

Am ddim ~ Free

Sgws Gymraeg arlein ~ Online Welsh talk

Bygyd yn Y Wladfa gyda Catrin Morris de Jungent

Life in the Colony with Catrin Morris de Jungent

Ymunwch â Catrin wrth iddi rhannu ei phrofiad o fyw yn yr Ariannin ac ym Mhatagonia'n benodol yn yr unfed ganrif ar hugain: Y wlad, y tir, y bobl, ei hanes a'i diwlliant.

Join Catrin as she shares her experience of living in Argentina and Patagonia specifically in the twenty-first century: The country, the land, the people, its history and culture.

I gadw lle ewch i: To book a place go to: www.bookwhen.com/gartholwg

GARTH OLGW LIFELONG LEARNING CENTRE - CP28 1HQ
Canolfan Garth Olwg Centre
[gartholwgllc](https://www.gartholwgllc) **01443 570 075**

Cylchlythyr wythnosol Capel y Tabernacl Cyf. yw *Dolen y Tab* i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel www.tabernacl.org.

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: 07710 237327 / 01443 225205 / gehpengwern@yahoo.co.uk